


YSGOLION YR 21AIN GANRIF



ATODIAD B – ASESIAID O'R EFFAITH AR
GYDRADDOLDEB

YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I AGOR YSGOL
ARBENNIG 3 I 19 OED NEWYDD YN RHONDDA
CYNON TAF

Mae'r ddogfen ymgynghori ac atodiadau yma hefyd ar gael ar y dudalen 'Dod yn
rhan o bethau' ar wefan y Cyngor.



FFURFLEN ASESU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB SY'N CYNWYS DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

(Diweddariad Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb cyfredol wrth gwblhau'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar (01443) 444529.

Rhaid cwblhau asesiad effaith ar gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y ddogfennaeth yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiaid ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy'n fwy cyfartal sy'n rhan annatod o:

- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau '[Dyletswyddau Mapio – Cymru sy'n fwy cyfartal](#)' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

ADRAN 1 – MANYLION Y CYNNIG

Swyddog Arweiniol: Lisa Howell.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth: Andrea Richards.

Maes Gwasanaeth: Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant – Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif

Dyddiad: 19 Mai 2023

1.a) Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?

Strategaeth/Cynllun	Ail-Fodelu Gwasanaeth / Cau Gwasanaeth	Polisi/Gweithdrefn	Arfer	Gwybodaeth / Datganiad Swydd
<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

1.b) Beth yw enw'r cynnig?

Agor ysgol arbennig 3 i 19 oed cyfrwng Saesneg newydd yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) a chyflwyno dalgyloedd ar gyfer yr holl ysgolion arbennig.

1.c) Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.

Y cynnig yw agor ysgol arbennig 3 i 19 newydd (cyfrwng Saesneg) yn RhCT ar gyfer 180 o ddisgyblion. Serch hynny, bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad asesiad dichonoldeb pellach ac yn dilyn bwrw ymlaen â chynllun manwl yr ysgol newydd. ***Bydd yr ysgol newydd yn darparu addysg i ddisgyblion sydd ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a nam ar y synhwyrâu.

Y cynnig ydy adeiladu'r ysgol newydd yn ardal Cwm Clydach, Tonypany, i'w hagor erbyn blwyddyn academaidd 2026 fan bellaf. Mae'r ysgol newydd yn ychwanegol at y pedair ysgol arbennig sydd eisoes ar agor yn RhCT.

Yn ogystal, y cynnig ydy cyflwyno dalgylchoedd ar gyfer ysgolion arbennig 3 i 19 oed ledled RhCT, sef:

- Ysgol Arbennig Park Lane
- Ysgol Hen Felin
- Ysgol Tŷ Coch

Byddai'r ysgol arbennig 3-19 newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 104, gofynion cynllunio cyfredol a deddfwriaethau rheoli adeiladu. Bydd yr ysgol hefyd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010..

Bydd yr ysgol yn cynnwys:

- Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa, ac ardaloedd addysgu a dysgu arbenigol i ddarparu ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.
- Pwll hydrotherapi ynghyd ag offer arbenigol synhwyrdd ac ysgogol eraill.
- Ardal benodol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.
- Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.
- Systemau rheoli traffig, gan gynnwys man gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff.

Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys adolygiad o lwybrau diogel i'r ysgol ac, os bydd angen, buddsoddiad mewn gwelliannau i lwybrau cerdded, croesfannau ffyrdd a mesurau arafu traffig i sicrhau bod y safonau diogelwch gofynnol yn cael eu bodloni. Dyma'r dull rydyn ni wedi'i roi ar waith mewn cymunedau eraill wrth gyflwyno Band B y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, lle mae gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud.

1.d) Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.

Wrth ddatblygu'r cynnig, cafodd ystyriaeth ei roi i'r canlynol:

1. Mae Adran 315 o **Ddeddf Addysg 1996** yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngorau sicrhau bod y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael ei hadolygu'n barhaus.

2. Mae'r **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** (Deddf ALNET 2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau adolygu'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn eu hardal yn barhaus ac ystyried a yw'r rhain yn ddigonol. Caiff Deddf ALNET 2018 ei gefnogi gan y **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021** statudol.
3. Mae'r pwerau sydd gan Gynghorau i ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu llywodraethu gan y **Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** a gefnogir gan y **Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol (2^{il} Rhifyn) (011/2018)**.
4. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â **Bwletin Adeiladu 104**, gofynion presennol y **ddeddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu** a bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

1.e) Amlinellwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio:

- Defnyddwyr Gwasanaeth
- Gweithwyr
- Y Gymuned Ehangach

ADRAN 2 – PRAWF SGRINIO – A OES ANGEN ASESIAID EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN?

Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchoddedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchoddedig rhaid cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn.

Rhowch gynifer o fanylion â phosibl ynglŷn â sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn yn negyddol o reidrwydd, ond gallai effeithio ar grŵp sydd â nodwedd unigol mewn ffordd benodol.

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch dull croestoriadol ar waith wrth gydnabod y gallai fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd warchoddedig.

<u>Nodweddion Gwarchoddedig</u>	Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?	Nodwch fanylion yr effaith	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?
Oedran	Cadarnhaol.	Mae gan RCT ystod ardderchog o ysgolion arbennig. Serch	Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT

<p><i>(Grwpiau oedran penodol h.y. pobl ifainc neu bobl hŷn)</i></p>		<p>hynny, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg bod mwy o alw am leoedd mewn ysgolion arbennig nag y mae modd i ni eu cynnig.</p> <p>Mae rhaglen moderneiddio ysgolion y Cyngor wedi bod yn gwneud cynnydd rhagorol o ran moderneiddio ystadau ein hysgolion, ateb y galw am leoedd ac ehangu lleoedd i ddisgyblion lle bo angen. Mae'r Cyngor wedi bod yn adeiladu ysgolion newydd, yn ailfodelu ac yn ailddatblygu ysgolion ar draws RhCT gan ddarparu amgylcheddau dysgu'r 21^{ain} ganrif ar gyfer ein disgyblion, staff, rhieni/gwarcheidwaid, a'r gymuned ehangach.</p> <p>Yn rhan o barhad rhaglen moderneiddio ysgolion y Cyngor, mae angen buddsoddiad i ddarparu ysgol newydd.</p> <p>O ystyried y newidiadau sylweddol yng Nghymru mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol sydd ei angen i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY, wrth weithredu Deddf ALNET</p>	<p>a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma o Garfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor.</p> <p>Mae enghraifft o hyn i'w weld yn Ysgol Gyfun y Pant lle mae'r cyfleusterau chwaraeon yn cael eu defnyddio gan Glwb Athletau Pont-y-clun a chan glybiau pêl-rwyd lleol ar gyfer hyfforddiant, tra bod y cyfleusterau cymunedol dan do yn cael eu defnyddio gan y Band Chwyth Cymunedol a Cherddorfa Symffoni Cwm Rhondda.</p> <p>Yn yr un modd, mae'r cyfleusterau chwaraeon yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn cael eu defnyddio ar gyfer twrnameintiau pêl-fasged ac ar gyfer hyfforddiant gan glybiau rygbi a phêl-droed lleol, tra bod y cyfleusterau cymunedol dan do yn cael eu defnyddio gan gorau lleol, ar gyfer dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i</p>
--	--	--	--

		<p>2018, bydd adeiladu ysgol newydd a chreu mwy o gapasiti yn ein darpariaeth bresennol yn sicrhau bod modd i'r Cyngor barhau i fodloni ei rwymedigaethau statudol. Mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig yma'n cynrychioli'r cyfle gorau i ddiogelu a chynnal safonau addysgol ar gyfer y dyfodol a'i fod yn darparu platfform ar gyfer gwelliannau pellach trwy fuddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau parhaol ac addas i'r diben.</p> <p>Byddai'r ysgol arbennig 3 i 19 oed newydd yn RhCT yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 104, gofynion presennol y ddeddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu a bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr ysgol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa, ac ardaloedd addysgu a dysgu arbenigol i 	<p>oedolion, boreau coffi cymunedol a dosbarthiadau celf.</p>
--	--	---	---

		<p>ddarparu ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwll hydrotherapi ynghyd ag offer arbenigol synhwyraidd ac ysgogol eraill. • Ardal benodol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. • Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm. • Systemau rheoli traffig, gan gynnwys man gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff. 	
<p>Anabledd (Pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)</p>	<p>Cadarnhaol.</p>	<p>Byddai'r ysgol arbennig 3-19 newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu. Bydd yr ysgol hefyd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr ysgol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa, ac ardaloedd addysgu a dysgu arbenigol i 	<p>Mae gan RCT ystod ardderchog o ysgolion arbennig. Serch hynny, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg bod mwy o alw am leoedd mewn ysgolion arbennig nag y mae modd i ni eu cynnig. Yn wyneb hyn, rydyn ni wedi cynnal ymarfer dadansoddi data. Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn rhoi trosolwg o safle pob ysgol arbennig, gan gynnwys gwybodaeth am gyflwr yr eiddo a graddfeydd ar gyfer addasrwydd ynghyd ag ystod o ddata. Dydy</p>

		<p>ddarparu ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwll hydrotherapi ynghyd ag offer arbenigol synhwyraidd ac ysgogol eraill. • Ardal benodol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. • Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm. • Systemau rheoli traffig, gan gynnwys man gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff. <p>Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.</p>	<p>rhagamcanion disgyblion ddim wedi'u cynnwys. Dylid nodi ei bod yn anodd rhagweld y galw am ysgolion arbennig, gan fod rhagamcanion yn dibynnu ar sawl ffactor a dydy tueddiadau hanesyddol a chyfraddau geni ddim yn ffactorau dibynadwy. Mae modd i amrywiadau yn ystod anghenion disgyblion ddatblygu a newid dros amser ac mae ysgolion arbennig wedi gweld twf sylweddol yng nghymhlethdod ADY disgyblion.</p> <p>Y cynnig yw agor ysgol arbennig 3 i 19 oed cyfrwng Saesneg newydd yn RhCT ar gyfer 180 o ddisgyblion. Bydd yr ysgol newydd yn darparu addysg i ddisgyblion sydd ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a nam ar y synhwyrau.</p>
--	--	---	--

<p>Ailbennu Rhywedd (<i>Unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddyn nhw adeg eu genedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd</i>)</p>	<p>Cadarnhaol.</p>	<p>Bydd toiledau niwtral o ran rhywedd ar gael yn yr ysgol newydd.</p>	<p>Mae ymchwil yn dangos bod toiledau ysgol wedi'u nodi gan ddisgyblion sy'n amrywio o ran rhywioldeb a rhywedd (SGD) fel y manau lleiaf diogel mewn ysgolion. Maen nhw'n safleoedd lle mae erledigaeth eiriol, gorfforol a rhywiol yn cael ei brofi. Gallai darparu cyfleusterau toiledau niwtral o ran rhywedd mewn ysgolion leihau bwlio ac erledigaeth disgyblion SGD, yn enwedig y rheini sy'n drawsryweddol neu'n amrywio o ran rhywedd.</p> <p>Mae darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a chynnwys toiledau niwtral o ran rhywedd gyda chiwbiclau uchder llawn ar gyfer preifatrwydd a rhannu cyfleusterau golchi dwylo wedi'u croesawu.</p>
<p>Priodas a Phartneriaethau Sifil (<i>Pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil</i>)</p>	<p>Niwtral.</p>	<p>Does dim disgwyl i'r newidiadau arfaethedig effeithio ar y grŵp yma.</p> <p>Er nad oes disgwyl y bydd effaith ar nodweddion sy'n ymwneud â phriodas neu bartneriaeth sifil, bydd y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Os bydd</p>	<p>Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma.</p>

		effaith yn codi, byddwn ni'n mynd i'r afael ag anghenion, a chaiff yr Aseiad Effaith Cydraddoldeb yma ei ddiweddarau lle bo angen.	
Beichiogrwydd a Mamolaeth <i>(Menywod sy'n feichiog / ar gyfnod mamolaeth)</i>	Cadarnhaol.	Bydd yr ysgol newydd yn gyfforddus yn thermol ac yn hawdd rheoli'r tymheredd mewnol. Bydd hyn o fudd i staff sy'n feichiog trwy ddarparu amgylchedd mwy cyfforddus i weithio ynddo. Bydd cyfleusterau gorffwys hefyd ar gael os oes angen trwy ystafell hylendid / ystafell feddygol bwrpasol.	Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach gan eu bod nhw wedi eu hawyru'n naturiol a bod gyda nhw systemau gwresogi sy'n effeithlon o ran ynni.
Hil <i>(Grwpiau ethnig neu o dras h.y. grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr)</i>	Cadarnhaol.	Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc rhwng 3 ac 19 oed ag ADY. O ganlyniad i'r cynnig, mae disgwyl i'r Cyngor gynyddu'r ddarpariaeth ADY.	Wrth edrych ar ddata ethnigrwydd, mae data CYBLD 2022 yn dangos bod 93.9% o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn wyn Prydeinig, 5.9% wedi'u dosbarthu'n unrhyw gefndir ethnig arall tra bod 0.2% yn anhysbys.
Crefydd neu Gred <i>(Pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)</i>	Cadarnhaol.	Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 104, gofynion presennol y ddeddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu a bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.	Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. ***Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma o Garfan Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif y Cyngor.

		Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Gallai hyn gynnwys grwpiau crefyddol cymunedol lleol.	
Rhyw <i>(Menywod a dynion, merched a bechgyn)</i>	Niwtral.	Bydd yr ysgol arbennig 3-19 newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â gofynion cynllunio cyfredol a deddfwriaethau rheoli adeiladu. Bydd yr ysgol hefyd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yn gyfforddus yn thermol ac yn hawdd rheoli'r tymheredd mewnol. Bydd hyn o fudd i staff â symptomau'r menapos trwy ddarparu amgylchedd mwy cyfforddus i weithio ynddo. Bydd cyfleusterau gorffwys hefyd ar gael os oes angen trwy ystafell hylendid / ystafell feddygol bwrpasol.	Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach gan eu bod nhw wedi eu hawyru'n naturiol a bod gyda nhw systemau gwresogi sy'n effeithlon o ran ynni.
Cyfeiriadedd rhywiol <i>(Deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol)</i>	Niwtral.	Does dim disgwyl i'r newidiadau arfaethedig effeithio ar y grŵp yma.	Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma.

		Er nad oes disgwyl y bydd effaith ar nodweddion sy'n ymwneud â Chyfeiriadedd Rhywiol, bydd y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Os bydd effaith yn codi, byddwn ni'n mynd i'r afael ag anghenion, a chaiff yr Aseiad Effaith Cydraddoldeb yma ei ddiweddarau lle bo angen.	
--	--	---	--

Oherwydd ymrwymadau'r Cyngor i ddarparu cyfleodd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffem ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:

	Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?	Nodwch fanylion yr effaith	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?
Cymuned y Lluoedd Arfog <i>(Unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth)</i>	Cadarnhaol.	Gallai capasiti ychwanegol yr ysgol newydd sicrhau bod digon o leoedd ar gyfer teuluoedd a fydd efallai yn symud i'r ardal hanner ffordd drwy flwyddyn academaidd (oherwydd newid mewn amgylchiadau).	Byddai'r ysgol newydd yn arwain at y gallu i ddarparu lleoedd ar gyfer mwy o ddisgyblion ag ADY.
Cynhalwyr <i>(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl)</i>	Cadarnhaol.	Gallai capasiti ychwanegol yr ysgol newydd sicrhau bod digon o leoedd ar gyfer teuluoedd a allai symud i'r ardal hanner ffordd drwy flwyddyn academaidd (oherwydd newid mewn amgylchiadau).	Byddai'r ysgol newydd yn arwain at y gallu i ddarparu lleoedd ar gyfer mwy o ddisgyblion ag ADY.

		<p>Gallai cyflwyno dalgyloedd ar gyfer ysgolion arbennig annog mwy o rieni/gwarcheidwaid i ddewis ysgol arbennig eu dalgyloch yn hytrach nag ysgolion arbennig y tu allan i'w dalgyloch, gan leihau amser, cost ac effeithiau amgylcheddol teithiau hirach.</p>	
--	--	---	--

Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol yna **rhaid** cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn (Adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:

Doedd dim effeithiau negyddol yn dod i'r amlwg ar gyfer y grwpiau gwarchoddedig. Bydd pob effaith ar grwpiau gwarchoddedig naill ai'n niwtral neu'n gadarnhaol.

Ydych chi'n fodlon bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau'ch penderfyniad?

Ydw

Nac ydw

Enw: Lisa Howell

Swydd: Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Dyddiad: 19 Mai 2023

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma ar y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.

NODWCH – mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unol â'r cynigion.

Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 *Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol*. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o'r Canllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

ADRAN 3 – DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Mae hyn yn y pen draw yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau agored i niwed ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig ei gael arnyn nhw:

<ul style="list-style-type: none"> • Rhieni sengl a theluoedd sy'n agored i niwed. • Pensiynwyr. • Plant sy'n derbyn gofal. • Pobl ddigartref. • Myfyrwyr. • Cartrefi oedolion sengl. 	<ul style="list-style-type: none"> • Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. • Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd. • Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches. • Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau. • Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal. • Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.
---	--

<u>Anfantais economaidd-gymdeithasol</u>	Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?	Nodwch fanylion yr effaith	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?
Incwm isel/Tlodi o ran Incwm <i>(Does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau rheolaidd fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati)</i>	Cadarnhaol.	Byddai'r ysgol arbennig 3-19 newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â gofynion cynllunio cyfredol a deddfwriaethau rheoli adeiladu. Bydd yr ysgol hefyd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr ysgol yn cynnwys:	Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma o Garfan Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif y Cyngor

		<ul style="list-style-type: none"> • Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa, ac ardaloedd addysgu a dysgu arbenigol i ddarparu ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. • Pwll hydrotherapi ynghyd ag offer arbenigol synhwyraidd ac ysgogol eraill. • Ardal benodol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. • Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm. • Systemau rheoli traffig, gan gynnwys man gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff. 	<p>Mae enghraifft o hyn i'w weld yn Ysgol Gyfun y Pant lle mae'r cyfleusterau chwaraeon yn cael eu defnyddio gan Glwb Athletau Pont-y-clun a chan glybiau pêl-rwyd lleol ar gyfer hyfforddiant, tra bod y cyfleusterau cymunedol dan do yn cael eu defnyddio gan y Band Chwyth Cymunedol a Cherddorfa Symffoni Cwm Rhondda.</p> <p>Yn yr un modd, mae'r cyfleusterau chwaraeon yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn cael eu defnyddio ar gyfer twrnameintiau pêl-fasged ac ar gyfer hyfforddiant gan glybiau rygbi a phêl-droed lleol, tra bod y cyfleusterau cymunedol dan do yn cael eu defnyddio gan gorau lleol, ar gyfer dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion, boreau coffi cymunedol a dosbarthiadau celf.</p>
<p>Cyfoeth Isel a / neu Dim Cynilion <i>(Digon o arian i gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant</i></p>	<p>Cadarnhaol.</p>	<p>Bydd gan yr ysgol amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa, ac ardal adnoddau dysgu amlbwrpas.</p>	<p>Mae data CYBLD 2023 yn dangos bod gan 47.6% o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig yn RhCT hawl i brydau ysgol am ddim, o</p>

<p><i>annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)</i></p>		<p>Gallai'r neuadd/ardal giniawa greu lle ar gyfer clwb brecwast sy'n cael ei ddefnyddio gan lawer o deuluoedd sydd ar incwm isel neu sydd ychydig yn uwch na'r trothwy tlodi.</p> <p>Mae data CYBLD 2023 yn dangos bod gan 47.6% o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig yn RhCT hawl i brydau ysgol am ddim, o gymharu â ffigur RhCT cyfan o 21.9%.</p> <p>Bydd gan yr ysgol newydd hefyd gyfleusterau a allai gynorthwyo gyda storio gwisg ysgol ar gyfer cynlluniau ailgylchu gwisg ysgol lle bydd modd i rieni/gwarcheidwaid ar incwm is fanteisio ar wisg ysgol o ansawdd da yn rhad ac am ddim.</p>	<p>gymharu â ffigur RhCT cyfan o 21.9%.</p> <p>Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach.</p>
<p>Amddifadedd Materol <i>(Methu â chael mynediad at wasanaethau na chynnyrch sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio / amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobiau ac ati)</i></p>	<p>Cadarnhaol.</p>	<p>Bydd yr ysgol newydd yn cynnig cyfleusterau gwell i ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a defnyddwyr y gymuned ehangach. Bydd gan yr ysgol newydd amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl</p>	<p>Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma o Garfan</p>

		<p>ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa, ac ardal adnoddau dysgu amlbwrpas. Gallai'r neuadd/ardal giniawa gael effaith gadarnhaol ar y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim gan y bydd amgylchedd bwyta modern yn cael ei ddarparu.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i ehangu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion oed cynradd fesul cam. Bydd y cyfleusterau arlwyo newydd yn cael eu dylunio i ddarparu ar gyfer cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim wedi i'r cynllun gael ei ehangu.</p>	<p>Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor.</p> <p>Mae enghraifft o hyn i'w weld yn Ysgol Gyfun y Pant lle mae'r cyfleusterau chwaraeon yn cael eu defnyddio gan Glwb Athletau Pont-y-clun a chan glybiau pêl-rwyd lleol ar gyfer hyfforddiant, tra bod y cyfleusterau cymunedol dan do yn cael eu defnyddio gan y Band Chwyth Cymunedol a Cherddorfa Symffoni Cwm Rhondda.</p> <p>Yn yr un modd, mae'r cyfleusterau chwaraeon yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn cael eu defnyddio ar gyfer twrnameintiau pêl-fasged ac ar gyfer hyfforddiant gan glybiau rygbi a phêl-droed lleol, tra bod y cyfleusterau cymunedol dan do yn cael eu defnyddio gan gorau lleol, ar gyfer dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion, boreau coffi cymunedol a dosbarthiadau celf.</p>
Amddifadedd o ran Ardal	Cadarnhaol.	Yn ogystal â chynnig ysgol newydd sbon gyda chyfleusterau modern, bydd y	Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar

<p><i>(Lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus)</i></p>		<p>cynnig hefyd yn cynnwys adolygiad o lwybrau diogel i'r ysgol ac, os bydd angen, buddsoddiad mewn gwelliannau i lwybrau cerdded, croesfannau ffyrdd a mesurau arafu traffig i sicrhau bod y safonau diogelwch gofynnol yn cael eu bodloni. Dyma'r dull rydyn ni wedi'i roi ar waith mewn cymunedau eraill wrth gyflwyno Band B y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, lle mae gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud.</p> <p>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn ardal Cwm Clydach, Tonypandy. Yn ogystal â hynny, y cynnig ydy cyflwyno dalgylchoedd ar gyfer ysgolion arbennig. Er y bydd rhai disgyblion yn byw ymhellach i ffwrdd o'r ysgol newydd, mae'r safle mewn lleoliad cyfleus.</p> <p>Bydd y contractwr sector preifat sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r ysgol newydd yn sicrhau</p>	<p>ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma o Garfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor.</p> <p>Mae enghraifft o hyn i'w weld yn Ysgol Gyfun y Pant lle mae'r cyfleusterau chwaraeon yn cael eu defnyddio gan Glwb Athletau Pont-y-clun a chan glybiau pêl-rwyd lleol ar gyfer hyfforddiant, tra bod y cyfleusterau cymunedol dan do yn cael eu defnyddio gan y Band Chwyth Cymunedol a Cherddorfa Symffoni Cwm Rhondda.</p> <p>Yn yr un modd, mae'r cyfleusterau chwaraeon yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn cael eu defnyddio ar gyfer twrnameintiau pêl-fasged ac ar gyfer hyfforddiant gan glybiau rygbi a phêl-droed lleol, tra bod y cyfleusterau cymunedol dan do yn cael eu defnyddio gan gorau lleol, ar gyfer dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion, boreau coffi</p>
---	--	--	--

manteision cymunedol drwy brentisiaethau, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith, gan ddod â swyddi lleol i bobl leol a chyfleoedd i'r rhai sy'n ddi-waith dros yr hirdymor. Byddan nhw hefyd yn cymryd rhan drwy wirfoddoli yn y gymuned a rhoddion mewn nwyddau er budd y gymuned leol. Byddan nhw hefyd yn ymgysylltu â chymuned yr ysgol, gan roi cyfle i ddisgyblion ymgysylltu â'r contractwr mewn gweithgareddau..

cymunedol a dosbarthiadau celf.

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (Mesur 2008), a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion (75.9%) sy'n mynychu'r ysgolion arbennig ar draws RhCT ar hyn o bryd yn defnyddio cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Bydd y cynnig yn cynnwys adolygiad o lwybrau diogel i'r ysgol ac, os bydd angen, buddsoddiad mewn gwelliannau i lwybrau cerdded, croesfannau ffyrdd a mesurau arafu traffig i sicrhau bod y safonau diogelwch gofynnol yn cael eu bodloni. Dyma'r dull rydyn ni

			wedi'i roi ar waith mewn cymunedau eraill wrth gyflwyno Band B y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, lle mae gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud.
<p>Cefndir Economaidd-gymdeithasol <i>(Dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni/gwarcheidwaid)</i></p>	Cadarnhaol.	<p>Bydd yr ysgol newydd yn rhoi cyfle i fwy o ddisgyblion ag ADY elwa o gael y cyfle i gael eu haddysgu mewn cyfleusterau newydd sbon sy'n addas ar gyfer y 21^{ain} ganrif.</p> <p>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â gofynion presennol y ddeddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu a bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr ysgol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa, ac ardal adnoddau dysgu amlbwrpas. • Ardal benodol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. 	<p>Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma o Garfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor.</p>

- Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.
- Systemau rheoli traffig, gan gynnwys man gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff.

Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.

Bydd y contractwr sector preifat sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r ysgol newydd yn sicrhau manteision cymunedol drwy brentisiaethau, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith, gan ddod â swyddi lleol i bobl leol a chyfleoedd i'r rhai sy'n ddi-waith dros yr hirdymor. Byddan nhw hefyd yn cymryd rhan drwy wirfoddoli yn y gymuned a rhoddion mewn nwyddau er budd y gymuned leol. Byddan nhw hefyd yn ymgysylltu â

		chymuned yr ysgol, gan roi cyfle i ddisgyblion ymgysylltu â'r contractwr mewn gweithgareddau.	
<p>Anfantais economaidd-gymdeithasol <i>(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchoddedig neu eu bregusrwydd neu oherwydd eu bod eisoes dan anfantais)</i></p>	Cadarnhaol.	<p>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn ardal Cwm Clydach, Tonypandy. Yn ogystal â hynny, y cynnig ydy cyflwyno dalgylchoedd ar gyfer ysgolion arbennig. Er y bydd rhai disgyblion yn byw ymhellach i ffwrdd o'r ysgol newydd, mae'r safle mewn lleoliad cyfleus.</p> <p>Bydd yr ysgol newydd yn cael effaith gadarnhaol ar unrhyw unigolyn a allai fod dan anfantais ariannol neu faterol, gan y bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach.</p>	<p>Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma o Garfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor.</p>

ADRAN 4 – ASESIAID EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN

Dylech ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol / niweidiol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

4.a) O ran unrhyw effaith anghymesur / negyddol / andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei gael ar grŵp gwarchoddedig, nodwch y camau y byddai modd eu cymryd i leihau'r effaith yna ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi? Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.

Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar grŵp gwarchoddedig.

4.b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.

Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar grŵp gwarchoddedig.

4.c) Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg uchod, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau/aelodau o staff.

- Mae dadansoddiad data yn seiliedig ar ddata sy'n deillio o'r CYBLD oni nodir yn wahanol.
- Ymresymiad ansoddol wedi'i gasglu gan Garfan Ysgolion y 21^{ain} Ganrif a Charfan Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a Charfan Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor.
- Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled RhCT a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma o Garfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor.

4.d) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchoddedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 4 Gorffennaf 2023 a bydd yn dod i ben am 5pm ar 14 Medi 2023.

Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu gyda staff, Cynghorau Ysgol a Chyrff Llywodraethu'r ysgolion arbennig ledled RhCT.

Bydd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd ar gael ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'. Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd yn fodd i ymgynghoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae croeso hefyd i ymgynghoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig i:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Tŷ Trevithick
Abercynon
CF45 4UQ

Neu

E-bost: cynllunioysgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedwydd. Felly, bydd Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.

Bydd sesiwn galw heibio hefyd yn cael ei threfnu fel bod modd i aelodau'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn.

Bydd Carfan Ysgolion y 21^{ain} Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a Charfan Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor yn monitro'r cynnig yma trwy gydol cyfnod datblygu'r dyluniad, y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu, gan gynnal cyfarfodydd adolygu misol.

4.e) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Statudol Cydraddoldeb a Dyletswyddau Statudol Economaidd-Gymdeithasol?

Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur / negyddol / andwyol ar grŵp gwarchodedig.

Ydw

Nac ydw

ADRAN 5 – MONITRO, GWERTHUSO AC ADOLYGU

5a) Amlinellwch isod sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei weithredu:

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018). Mae Adran 2.1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Agor ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig).
- Cau ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig).

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 4 Gorffennaf 2023 ac yn dod i ben am 5pm ar 14 Medi 2023.

Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu gyda staff, Cynghorau Ysgol a Chyrff Llywodraethu'r ysgolion arbennig ledled RhCT.

Bydd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd ar gael ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor . Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd yn fodd i ymgynghoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae croeso hefyd i ymgynghoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig i:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Tŷ Trevithick
Abercynon
CF45 4UQ

Neu

E-bost: cynllunioysgolion@rhondda-cynon- Taf.gov.uk

Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, bydd Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a

Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.

Bydd sesiwn galw heibio hefyd yn cael ei threfnu fel y gall aelodau'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a darparu unrhyw Bydd sesiwn galw heibio hefyd yn cael ei threfnu fel bod modd i aelodau'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn.

Bydd Carfan Ysgolion y 21^{ain} Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a Charfan Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor yn monitro'r cynnig yma trwy gydol cyfnod datblygu'r dyluniad, y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu, gan gynnal cyfarfodydd adolygu misol.

5b) Erbyn pryd rhaid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried Adroddiad yr Ymgynghoriad ac yn penderfynu – yn seiliedig ar yr adborth – a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, diwygio'r cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig / drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu ar y cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o ddyddiad dod i benderfyniad ar y cynnig.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. Yn achos y cynnig, fydd y dyddiad gweithredu ddim yn hwyrach na blwyddyn academaidd 2026.

5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?

Bydd Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a Charfan Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor yn monitro'r cynnig yma trwy gydol cyfnod datblygu'r dyluniad, y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu.

5d) Sut bydd y canlyniadau o'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

Mae pob prosiect Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn destun adolygiad 'Gwersi a Ddysgwyd' ar ddiwedd y cyfnod adeiladu, ac mae hyn yn bwydo i brosiectau yn y dyfodol, fel bod pob prosiect yn gwella ac yn elwa ar y gwersi a ddysgwyd (cadarnhaol a negyddol) yn ystod prosiectau blaenorol.

ADRAN 6 – ADOLYGU

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, rhaid i chi anfon yr Asesiad Effaith yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant – cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk a'r Garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghori@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf ar gyfer rhywfaint o arweiniad cychwynol ac adborth.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael ei osod ger bron Swyddogion y Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol, anfonwch eich asesiad effaith, cynnig polisi/adroddiad a'ch adroddiad ymgynghoriad wedi'u cwblhau i gyfeiriad e-bost – BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Arwyddocaol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i ni ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau

amrywiaeth/economaidd-gymdeithasol lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddarau'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol.

Sylwadau'r Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant	Dyddiad Ystyried y Cynnig	Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu
I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
Sylwadau'r Ymgynghoriad	Dyddiad Ystyried y Cynnig	Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad
I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu	Dyddiad Ystyried y Cynnig	Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu
I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau

ADRAN 7 – CRYNODEB O'R EFFEITHIAU GAN Y CYNNIG

Rhowch grynodeb o'r asesiad effaith isod, gan gynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol, ynghyd â throsolwg o'r camau rydych chi wedi'u cymryd ers yr asesiad effaith i gyfrannu'n well at ragor o effeithiau cadarnhaol. Rhaid cynnwys y crynodeb hwn yn yr adran Ystyriaethau Cydraddoldeb sy'n rhan o dempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Nid yw'n ddigonol i ysgrifennu 'Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad X'. Rhaid i'r asesiad effaith gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad.

Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

I grynhoi, mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi effeithiau cadarnhaol a niwtral, a does dim effeithiau negyddol ar y nodweddion gwarchoddedig.

- Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 104, gofynion presennol y ddeddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu a bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Bydd yr ysgol newydd a'r ffordd y caiff ei defnyddio yn dod ag effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol ar draws yr holl grwpiau agored i niwed sydd wedi'u nodi o dan y penawdau nodweddion gwarchoddedig.

- Byddai modd i gapasiti ychwanegol yr ysgol newydd sicrhau bod digon o leoedd ar gyfer teuluoedd a fydd efallai yn symud i'r ardal hanner ffordd drwy flwyddyn academaidd (oherwydd newid mewn amgylchiadau). Byddai modd i hyn gynnwys cymuned y lluoedd arfog a chynhalwyr.
- Bydd yr ysgol newydd a'r ffordd y caiff ei defnyddio yn dod ag effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol ar draws yr holl grwpiau agored i niwed sydd wedi'u nodi o dan y penawdau anfantais economaidd-gymdeithasol.

ADRAN 8 – AWDURDODI

Swyddog Arweiniol:

Enw: Lisa Howell.

Swydd: Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Dyddiad: 19 Mai 2023.

Rydw i'n argymhell bod y cynnig:

- Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau
- Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu
- Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur y bydd y cynnig yn ei gael ar grwpiau gwarchoddedig neu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol

Cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:

Enw: Gaynor Davies.

Swydd: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant,

Dyddiad: 19 Mai 2023.

Cyflwynwch yr asesiad effaith yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.